| Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Dydd Mercher 16 Hydref 2019 |
| **Amser y Cyfarfod:** | 8:00am – 4.15 pm |
| **Lleoliad y Cyfarfod:** | Gwesty'r Fro / The Vale Resort Hensol, Bro Morgannwg |
| **Cadeirydd** | David Lloyd |

**YN BRESENNOL:** 16 Hydref 2019

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru:**<br>Andrew Martin (AM)<br>Dave Morris (DM)<br>Mark Williams (MW)<br>Alison Ebsworth (AME)<br>Cara James (CJ) | **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru:**<br>David Lloyd (DL) Huw Thomas (HT)<br>James Wilson (JW)<br>Justine Fosh (JF)<br>Norma Barry (DS) |
| **Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd:**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>David Lloyd-Thomas (DLT)<br>Enfys Jones (EJ)<br>Lyndsey Margetson (LM)<br>Andrew Thomas (AT)<br>Mark Hughes (MH)<br>Eraill<br>Ifor Ffows-Williams (IFW)<br>Bethan Sian Jones (BSJ) - MAB<br>Neil Burchell (NB) - MAB<br>Elen Williams (EW) - MAB<br>Linda Grant (LG) Bic Innovation<br>Sarah WISE (SW) - Defra<br>Kayla Moyes (KM) Levercliff/WW<br>Sarah Nicholas (SN) Levercliff WW | |

**Ymddiheuriadau:**
Keith Smyton (KS) Llywodraeth Cymru
Alison Lea Wilson (ALW)
Andy Richardson (AR)
Katie Palmer (KP)
Annitta Engel (AE)

| | **SESIWN 1** |
|---|---|
| **Rhif** | **EITEMAU'R AGENDA** |
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>**David Lloyd**<br><br>Yn absenoldeb y Cadeirydd, Andy Richardson, croesawodd David Lloyd bawb i'r cyfarfod, ac fe gafwyd cyflwyniadau byr gan bawb a oedd yn bresennol. |
| **2.** | **Cofnodion Heb Eu Cymryd Cyfarfodydd mis Ebrill a mis Gorffennaf 2019**<br><br>*** Gweler y Cofnodion Gweithredu a chofnodion y cyfarfod blaenorol ***<br><br>**Cofnodion 16 Gorffennaf 2019**<br>**Cynigydd**: Huw Thomas<br>**Eilydd**: Justine Fosh |

| | |
|---|---|
| **3.** | **Strategaeth Sgiliau**<br>❖ Y diweddaraf am y Strategaeth Sgiliau – gan gynnwys prentisiaethau<br>❖ Y diweddaraf am y Tendr<br>**Y Diweddaraf am y Strategaeth Sgiliau – Justine Fosh**<br>Nid oedd papur ar gael ar gyfer y cyfarfod. Cafwyd diweddariad cryno ar lafar am y meysydd a'r camau allweddol a gwblhawyd hyd yn hyn.<br>1. Cynnydd ar gyllid ar gyfer busnesau er mwyn cynorthwyo'u hyfforddiant sy'n cael ei gynnal gan Lantra drwy Sgiliau Bwyd Cymru. Cwblhawyd 27 o arolygon diagnosteg yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd 24 o geisiadau am gyllid sydd bellach wedi cynyddu i 59 o arolygon diagnosteg, wedi'u rhannu'n 24 ar gyfer microfusnesau, 23 ar gyfer BBaChau a 12 ar gyfer busnesau mawr.<br>2. Mae cyllid gwerth £72,000 wedi'i gymeradwyo ar gyfer hyfforddiant, ac mae 642 o bobl wedi'u cymeradwyo ar gyfer hyfforddiant hyd yn hyn.<br>3. Bydd gwybodaeth ehangach am fanylion yr hyfforddiant ar gael, a bydd yn cael ei rhannu â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.<br>4. Yn dilyn cyfarfod y Clwstwr ar 15 Hydref, mae dosbarth meistr Bragu wedi'i sefydlu.<br>5. Gweithgaredd gyrfaoedd - ni fu unrhyw gynnydd gan nad oes unrhyw gyllid ar gael i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd gyrfaoedd.<br>6. Mae her ysgolion yn bosibl trwy Fagloriaeth Cymru.<br>7. Mis Hydref 2019 - digwyddiad Sgiliau Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd a Llandudno. 2018 - mynychodd 15 o gwmnïau. Oherwydd diffyg cyllid yn 2019, ni fydd y sector bwyd yn bresennol, a dim ond 2 gwmni bwyd a fydd yn mynychu ar eu liwt eu hunain.<br>8. Canslwyd Hyfforddiant Tasty Ambassador ym mis Tachwedd 2019 oherwydd diffyg cyllid.<br>9. Mae Highfield HR yn gwmni preifat sy'n cynnig hyfforddiant i gwmnïau bach, ac mae wedi gofyn a oes modd trosglwyddo ei fanylion cyswllt i'r Clystyrau.<br>10. Ym mis Hydref 2019 cwblhawyd ymarfer ymgynghori ar y Cynllun Prentisiaethau a nodwyd 4 blaenoriaeth allweddol yng Nghymru. |

11. Ar hyn o bryd, mae 200 o fframweithiau Prentisiaeth yng Nghymru sy'n cynnwys llawer o lwybrau. Mae Bwyd a Diod yn un fframwaith, ac mae tua 15 o lwybrau gwahanol ar gael. Bydd y llwybrau hyn yn cael eu cydgrynhoi a'u hadrefnu yn 23 sector a 2 lwybr yng Nghymru, gan fod Bwyd a Diod yn alwedigaeth berthnasol yng Nghymru, ond nid yn Lloegr lle mae wedi cael ei huno â sectorau eraill.
12. Newidiadau i gynllunio Prentisiaethau a sut maent yn cael eu comisiynu yn y dyfodol.
13. Sefydlu Canolfan Gyfathrebu newydd yng Nghymru a fydd yn ardal un stop ar gyfer cynorthwyo unrhyw un sydd eisiau gwybod am brentisiaethau, pwy sy'n eu darparu, beth sydd ar gael, a'r rhagolygon gyrfa. Cynhelir y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru (yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes) a bydd rhagor o fanylion yn dilyn.
14. Mae ymarfer ymgynghori'n cael ei cynnal ar hyn o bryd ar nifer o lwybrau a'u lefelau, sef (1) Bragu (2) Sgiliau Bwyd (3) Rhagoriaeth Cynhyrchu Bwyd (4) Peirianneg Bwyd.

**Diweddariad am y Tendr (Llywodraeth Cymru)**

**Dave Morris**

Cyflenwi Sgiliau a gwblhawyd gan yr Academi Sgiliau Genedlaethol. Roedd rheolau caffael Llywodraeth Cymru yn atal adnewyddu drwy ddyfarniad grant oherwydd gwerth y contract. Bydd yn rhaid caffael contract cyflenwi sgiliau newydd drwy OJEU mwy na thebyg. Mae'r newid polisi hwn wedi effeithio ar yr Academi Sgiliau Genedlaethol sydd wedi parhau i gyflwyno'r strategaeth sgiliau wedi i'w chontract ddod i ben ym mis Mawrth. Sicrhaodd yr Academi Sgiliau Genedlaethol fod y gwaith o gyflenwi sgiliau gan gynnwys y Parth Sgiliau yn Sioe Frenhinol Cymru wedi'i ddarparu i safon uchel, ond nid yw'r Academi wedi derbyn tâl am y gwaith hwn eto. Bydd oedi cyn trefnu proses dendro ar gyfer y contract newydd gan fod angen gwerthuso'r gwasanaeth, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Bydd y canfyddiadau drafft yn cael eu cynhyrchu ym mis Tachwedd 2019, a gobeithio y bydd tendr newydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020. Yn y cyfamser, mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn ystyried darparu rhywfaint o'r strategaeth yn fewnol er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth nes bod y contract newydd ar waith. Mae Jenny Gerrard a Nick Shilton (Llywodraeth Cymru) yn arwain y prosiect hwn, a bydd gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf.

| | |
|---|---|
| **4.** | **Canlyniadau Diagnosteg y Grŵp Gwella Busnes**<br>**Cywain (Elen Williams)**<br><br>Datblygwyd adnodd busnes gan Menter a Busnes gan weithio gydag adnodd Muddy Boots er mwyn helpu busnesau i arfarnu eu perfformiad. Mae'r holl ddata yn gyfrinachol. Unwaith y bydd busnesau wedi cwblhau'r diagnostig, mae cerdyn sgorio yn cael ei gynhyrchu sy'n helpu i ganolbwyntio ar wendidau'r busnes unigol. Yna, mae Cywain yn llunio cynllun gweithredu ac yn cynnig cymorth. Mae'r diagnostig yn cynnwys 6 adran, sef busnes, strategaeth, dadansoddi cystadleuwyr, pobl, adnoddau dynol ac ariannol. Mae'r adroddiad yn gymharol gynhwysfawr o safbwynt busnes ac mae'n cwmpasu holl fecanwaith y busnes. Mae cwmnïau'n derbyn copi o'r crynodeb |

| | |
|---|---|
| | yn ogystal â'r cerdyn sgorio, ac mae canran yn cael ei chofnodi yn erbyn pob un o'r adrannau. Mae canran uwch yn dynodi bod cwmni'n gwneud yn dda yn yr adran honno o'r busnes, ac mae canran isel yn dynodi nad yw'n gwneud yn dda a bod angen i'r cwmni ganolbwyntio mwy ar feysydd penodol o'r busnes, megis gwendidau o'i gymharu â'i gystadleuwyr.<br>Mae angen tua 1½ awr i gwblhau'r arolwg diagnostig fel arfer, ac mae aelod o dîm Cywain a chynrychiolydd cwmni ar lefel rheoli yn cwblhau'r arolwg.<br>Mae gan y cerdyn sgorio 71 o gwestiynau ac mae'r canlyniadau wedi'u pwysoli. Ers datblygu a chyflwyno'r adnodd yn 2017, mae dros 280 o arolygon diagnostig wedi'u cwblhau. Mae 51% o'r busnesau hyn wedi'u cofrestru at ddibenion TAW. Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau a aseswyd wedi'u lleoli yn y Gorllewin (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, a Cheredigion) Gwynedd a Chonwy yn y Gogledd. Mae gan 77% eu cyfleusterau prosesu eu hunain. Mae gan 82 bolisïau wedi'u dogfennu ar waith.<br>Mae data cyfanredol o'r arolygon diagnostig yn cael ei lunio mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru ar faterion allweddol yn ymwneud â Brexit. Y pum prif fater yw (1) cynnydd mewn costau, (2) cyrchu cynhwysion crai, (3) problemau'n ymwneud â thariffau a materion allforio, (4) cyfleoedd twf, (5) costau pecynnu megis gwydr a phaledi.<br>Mae adborth gan staff yn nodi pryderon am fod yn barod am Brexit a strategaethau ymdopi.<br>Mae Menter a Busnes yn edrych ar strategaeth farchnata newydd i gyrraedd cwmnïau sydd wedi eu lleoli yn y Gogledd a'r De er mwyn ennyn eu diddordeb mewn Diagnosteg y Grŵp Gwella Busnes.<br><br>Dadansoddiad marchnata:-<br>Mae marchnadoedd yn parhau i fod yn lleol iawn – rhanbarthol a Chymru 66%, cenedlaethol 19%, yr UE 8% a Byd-eang 7%. Mae angen gwella'r broses o fesur gwaith ymchwil marchnata, prynu a defnyddwyr o'r data diagnostig. Mae 50% o fusnesau wedi cyfeirio at gysylltiadau â thwristiaeth, a disgwylid y byddai hyn yn uwch yn y Gorllewin lle mae twristiaeth yn bwysig iawn.<br>Mae gwariant ar farchnata yn isel, ac mae cwmnïau'n gwario £3,000 neu'n llai ar farchnata bob blwyddyn. Mae angen gwella'r maes hwn yn sylweddol ac nid oes ateb cyflym iddo. Fodd bynnag, mae Menter a Busnes yn rhoi ymyriadau ar waith gan gynnwys elfen Arloesedd gyda Cywain, gan ganolbwyntio ar ddatblygu marchnadoedd penodol ym meysydd twristiaeth, allforio, a phrofi masnachu mewn ardaloedd newydd o'r DU a thu hwnt. Bydd cyllid newydd ar gyfer 2020 yn cynnwys lansio £100,000 i helpu cwmnïau i ganfod marchnadoedd newydd.<br><br>Bydd gwaith dadansoddi data drwy'r clystyrau yn cael ei wneud mewn perthynas ag ymchwil i farchnadoedd.<br><br>Hyfforddiant ac Adnoddau Dynol<br>Dim ond 32% o fusnesau sy'n cyflogi staff, ac mae'r 68% arall yn fusnesau un person. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng staff rhan-amser a staff llawn amser. Mae 47% yn trefnu gwasanaethau drwy gontract allanol neu'n defnyddio ymgynghorwyr.<br>Mae busnesau sydd â staff wedi nodi bod angen iddynt ddarparu hyfforddiant i'w staff a bod ganddynt anghenion hyfforddi eraill o fewn y busnes yn ymwneud â materion craidd. Mae cwrs cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu trwy brosiect Cywain ac mae'n canolbwyntio ar gyllid sylfaenol ac uwch. Atgyfeiriadau i Lantra – Sgiliau Bwyd Cymru.<br>Cynhelir dosbarthiadau Tuck-in yn 2020–2 yn ogystal â sesiynau grwpiau Clwstwr. |

| | |
|---|---|
| | Mynegodd aelodau'r Bwrdd bryderon bod arolwg diagnostig y Grŵp Gwella Busnes ond yn cael ei ddefnyddio gan fusnesau sydd ar fin cael eu sefydlu, micro fusnesau a 'busnesau un person' yn hytrach na BBaChau a chwmnïau mwy o ran maint. Hefyd, beirniadodd y Bwrdd y pwyslais ar ardal y Gorllewin. Ymatebodd Cywain trwy nodi ei bod yn anodd ymgysylltu â BBaChau a busnesau mwy o ran maint am fod ganddynt ddiagnosteg a systemau mewnol yn aml.<br><br>Mae cymorth hyfforddiant ar gael i fusnesau o bob maint mewn perthynas â rheolaeth ariannol, ac mae arian ychwanegol ar gael i helpu busnesau sydd ag anghenion hyfforddi dynodedig.<br><br>Mae Menter a Busnes yn ceisio nodi'r cwmnïau sy'n gallu tyfu'n gyflym drwy'r broses hon.<br><br>**CAM GWEITHREDU NEWYDD 5:** EW (Menter a Busnes) i ymestyn Arolwg Diagnostig y Grŵp Gwella Busnes i BBaCh a busnesau mawr, ac i'r Gogledd/Canolbarth/De ac ochr ddwyreiniol Cymru gan roi diweddariad i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn gynnar yn 2020.<br><br>Cyllid<br>Pryderon mawr am wendid ariannol gan fusnesau newydd a busnesau mwy o ran maint – mae angen mawr am Raglen Barod am Fuddsoddiad.<br>Mae casglu data wedi bod yn ymarfer defnyddiol sydd wedi ailystyried materion a rhoi cymorth ar waith mewn meysydd allweddol. Mae angen mwy o adborth gan fusnesau ymhen 12 mis i asesu newid, cynnydd a datblygiadau. Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i bob busnes fynychu gweithdai neu gymhorthfa o fewn 6 mis i gofrestru. Bydd Menter a Busnes yn darparu mwy o themâu trawsbynciol ar draws disgyblaethau busnes.<br>Yn 2020 bydd Menter a Busnes yn lansio rhywfaint o gyllid ar gyfer hyfforddiant mewn perthynas â chadw llyfrau safonol a hyfforddiant meddalwedd. Rhoddir blaenoriaeth i fusnesau sy'n cyrraedd y trothwy trosiant o £1m a mwy i ddarparu hyfforddiant ariannol. |

| | |
|---|---|
| **5.** | **Gwybodaeth am Brexit**<br><br>**Dave Morris**<br><br>Dywedodd AR fod DEFRA yn awyddus iawn i ymgysylltu â'r weinyddiaeth ddatganoledig wrth symud ymlaen mewn perthynas â'r holl waith y mae Cyngor y Sector Bwyd yn ymwneud ag ef. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn nifer o ffrydiau prosiect gan gynnwys cynhyrchiant y sector yn y DU a phrosiectau'n ymwneud â sgiliau. Mae AR wedi hen ymsefydlu yn y Cyngor, ac mae'r Cyngor yn croesawu materion sy'n cael eu trosglwyddo gan y DAs.<br><br>Penderfynodd Llywodraeth Cymru symleiddio'r holl wybodaeth am Brexit drwy gyfeirio busnesau at wybodaeth ar-lein Llywodraeth y DU yn hytrach na dyblygu'r wybodaeth hon ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob dull sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth berthnasol am Brexit, gan gynnwys drwy ei Chlystyrau, ei Phartneriaid Cyflenwi, ei Chylchlythyr, ac unrhyw ymgysylltiad â busnesau. Mae gwybodaeth gan y diwydiant yn dangos bod busnesau'n paratoi mwy nag o'r blaen.<br><br>**Justine Fosh**<br>Mae nifer o ffrydiau gwaith y Cyngor Bwyd ar gael ar gyfer Sgiliau, a'r 4 amcan yw (1) Prentisiaethau (2) Seilwaith (3) Darparu Hyfforddiant a |

| | |
|---|---|
| | (4) Uwchsgilio'r gweithlu presennol. Mae yna ddarn trawsbynciol ar ddata, gwybodaeth am y farchnad a nodi'r bylchau. Cyflwynwyd 2 neu 3 o gynigion ac nid ydym wedi cael clywed pa un oedd yn llwyddiannus. Roedd un o'r prosiectau ar gyfer cwmnïau a oedd wedi tanwario ar ardoll yn Lloegr tra bod busnesau bach yn parhau i orfod talu ffi o 5% am eu hyfforddiant. Un o'r dewisiadau yw bod yr ardoll sydd heb ei gwario yn cael ei defnyddio fel cronfa ar gyfer busnesau llai o ran maint. Ail ddewis yw creu rhwydwaith o golegau sy'n cynnig peirianneg bwyd ac sydd wedi ymrwymo i'r diwydiant bwyd, a chefnogi'r cyrsiau/colegau hyn. Ar hyn o bryd, mae hyn ar gyfer Lloegr yn unig, a byddai'n ofynnol i 15 o golegau gymryd rhan. Roedd y trydydd cynnig yn ymwneud â busnesau yn addo cefnogi'r diwydiant. **CAM GWEITHREDU 6 – AR i anfon e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am brosiectau a chynigion y Cyngor Bwyd. (MW)** |

| 6. | **Paratoi ar gyfer Brexit**<br><br>**Defra**<br>**Sarah Nicholas**<br><br>Trosolwg presennol o Defra a'i hymgysylltiad â'r diwydiant bwyd a sut mae Defra yn helpu i baratoi busnesau ar gyfer Brexit.<br>Mae yna ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r sefyllfa o safbwynt Brexit, ond mae'r Llywodraeth wedi nodi'n glir ein bod yn bwriadu gadael yr UE ar 31 Hydref 2019 gyda chytundeb neu heb gytundeb, ac fel Llywodraeth ein cyfrifoldeb yw paratoi busnesau i fod yn barod. Mae llawer o wybodaeth wedi'i rhannu drwy hysbysfyrddau a dulliau hysbysebu ledled y DU am baratoi ar gyfer Brexit. Y syniad yw bod busnesau'n cael eu cyfeirio at wybodaeth y bydd ei hangen arnynt os yw'r DU yn gadael heb gytundeb, gan y byddai'r senario hwn yn arwain at y newidiadau mwyaf sylweddol.<br>Rhan o rôl tîm parodrwydd ar gyfer busnes Defra yw mynd allan a siarad â'r diwydiant, busnes a masnach. Dros y misoedd diwethaf, a'r wythnosau diwethaf yn benodol, mae Defra wedi bod yn derbyn cwestiynau llawer mwy manwl a thechnegol, sy'n awgrymu bod busnesau'n dechrau ymgysylltu â pharodrwydd.<br>Mae busnesau'n siarad mwy â'u cymdeithasau masnach. Pryder bod diffyg parodrwydd yn y diwydiant, yn rhannol oherwydd nad yw'n gofyn am gyfalaf gweithio ychwanegol. Mae hyn yn berthnasol iawn i BBaChau, ond gallai'r sefyllfa newid trwy gynyddu lefelau ymwybyddiaeth.<br>Hefyd, mae angen i fusnesau'r UE baratoi i allforio i'r DU, ac mae Defra wrthi'n gweithio ar y mater hwn.<br><br>Mae negeseuon allweddol Defra i fusnesau yn nodi bod angen paratoi, bod newidiadau ar y gweill a bod angen i'r diwydiant ddeall sut mae hyn yn gallu effeithio ar fusnesau. Ni all Defra roi cyngor ar benderfyniadau masnachol, ond mae'n gallu cyfeirio at yr holl wybodaeth ar gyfer y newidiadau sydd ar gael.<br>Mae rhai o'r newidiadau sy'n deillio o ymadael heb gytundeb yn cynnwys â phwy rydym yn masnachu a sut rydym yn masnachu – trafodaeth barhaus â gwledydd sydd â chytundebau masnach gyda'r UE. O safbwynt parhau â'r cytundebau masnach hyn – mae 65 o wledydd wedi'u llofnodi, ac mae trafodaethau parhaus yn mynd rhagddynt gyda'r gweddill erbyn 31 Hydref 2019. |
|---|---|

Cafodd cyfraddau tariff eu cadarnhau ar 8 Hydref 2019, ac nid oedd tariffau ar gyfer bwyd-amaeth wedi newid. Cafwyd diweddariadau yn ymwneud â cherbydau nwyddau trwm a biodanwydd, ond mae'r diweddariadau craidd sy'n effeithio ar y sector yn aros yr un fath â'r hyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019. Rhestr tariffau dros dro am 12 mis gyda rhywfaint o bosibilrwydd o newid, ac yn yr hirdymor cynhelir ymgynghoriad cyn ailosod y tariffau.

Bydd mewnforion yn aros yn ddigyfnewid ond bydd y broses o drosglwyddo i'r systemau newydd a ddatblygwyd gan Defra a rhai prosesau yn newid yn y cyswllt hwnnw.
Bydd gofynion newydd yn berthnasol i allforio cig a chynnyrch llaeth os nad ydych wedi allforio i drydedd wlad o'r blaen. Bydd yn rhaid i filfeddygon gymeradwyo cynhyrchion anifeiliaid a llwythi plasm cenhedlu, a bydd yn rhaid iddynt gyrraedd yr UE drwy Fannau Archwilio Ffiniau penodol. Mae pob man archwilio yn derbyn gwahanol fathau o gynnyrch. Mae manylion a gwybodaeth gyswllt ar gael ar wefan yr UE.

Labelu Bwyd - mae Llywodraeth y DU yn cynghori ar gyfnod pontio o 21 mis o ddiwrnod 1 fel bod busnesau yn gallu gwneud newidiadau i'w labeli ar nwyddau sy'n cael eu gwerthu ym Marchnad yr UE. Fodd bynnag, mae'r UE yn bwriadu gorfodi system labelu gwlad tarddiad, nodau iechyd o ddiwrnod 1. Bydd angen i fusnesau yn y DU gael cyfeiriad yr UE ar eu labeli dosbarthwr neu fewnforiwr.

Nwyddau organig – Mae angen i ardystwyr gael eu rhestru gyda'r UE fel ardystwyr cyfwerth er mwyn gallu allforio nwyddau organig i'r UE. Nid yw hyn wedi digwydd ac mae trafodaethau'n parhau. Y sefyllfa waethaf - gwaharddiad hyd at 9 mis ar fasnachu cynnyrch organig o'r DU. Mae gan Defra agwedd bragmatig at y newidiadau hyn.

Mae pob dynodiad daearyddol yn cael ei gydnabod yn ddiofyn yn yr UE, a byddant yn parhau i gael eu cydnabod yn y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Fodd bynnag, bydd dynodiadau daearyddol y DU yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i gofrestr newydd y DU. Nid oes unrhyw gamau gweithredu ar gyfer busnesau, ond mae logo newydd wedi'i gyflwyno ac mae angen iddo fod ar waith ar ôl y dyddiad ymadael.

Mae safonau marchnata ar gyfer bwydydd penodol yn wynebu nifer o newidiadau, a bydd angen gofynion a chydymffurfiaeth gwahanol ar gyfer categorïau o gynnyrch gwahanol. Mae llawer o ganllawiau ar gael ar wefan gov.uk.

Mae busnesau'n cael eu hysbysu i baratoi am Brexit heb gytundeb fel y sefyllfa waethaf erbyn y 31 Hydref 2019. Ewch i brexitreadinessagrifoodchain@defra.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Mae nifer o sioeau teithiol y Llywodraeth wedi'u cynnal ledled y wlad, gan gynnwys rhai digwyddiadau yng Nghymru. Roedd yr holl sectorau allweddol yn bresennol ac yn gwneud cyflwyniadau. Hefyd, cynhaliwyd sesiynau ar ffurf cymhorthfa gydag adrannau allweddol. Hefyd, mae Defra wedi bod yn gwneud gwaith targedu allweddol ar gyfer y sector bwyd-amaeth a physgodfeydd ledled Lloegr, gan geisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru a gwledydd datganoledig eraill lle bo hynny'n bosibl, gyda'r nod o greu partneriaeth â nhw. Gall busnesau gofrestru ar gyfer hysbysiadau electronig.

Os yw'r DU yn ymadael â'r UE gyda chytundeb yn digwydd, ac yn ystod y cyfnod

| | |
|---|---|
| | pontio sy'n dilyn, bydd yr holl reoliadau labelu bwyd, gan gynnwys gofynion Gwlad Tarddiad, yn aros yn union yr un fath. Yn yr un modd, yn ystod y cyfnod pontio bydd yn ofynnol i Lywodraeth y DU |

| | |
|---|---|
| | gydymffurfio â holl ofynion labelu'r UE. Hefyd, bydd hyn yn berthnasol i allforion o'r DU i drydydd gwledydd gan na ellir gweithredu unrhyw FTA yn llawn hyd nes bod y cyfnod pontio gyda'r UE ar ben.<br><br>Os yw'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, byddai'r DU yn drydedd wlad mewn perthynas â'r UE, a byddai angen diwygio rheolau Gwlad Tarddiad yn unol â hynny. ~~Mae rheolau Gwlad Tarddiad yn golygu y gallwn barhau i fasnachu cyn Brexit gan eu bod wedi nodi y byddai'n rhaid i ni ymadael er mwyn ail-restru wedyn.~~<br><br>Mae gan Defra adran bwyd a diod benodol ar ei gwefan i gynorthwyo busnesau. Mae'n cynnwys llawer o wybodaeth a thaflenni y mae modd eu hargraffu. Mae'r tîm o fewn Defra yn hapus i dderbyn cwestiynau a bod yn bwynt cyswllt ar gyfer Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.<br><br>JW – a yw DEFRA wedi cwblhau crynodeb prisio cronnol ynglŷn â faint o arian y bydd y newidiadau hyn yn ei gostio? Mae yna feichiau cynyddol ar gwmnïau sydd am allforio eu cynnyrch i'r UE ar gyfer pob sector y tu allan i'r farchnad sengl. Nid yw hyn yn gweithio ar hyn o bryd ar gyfer y Diwydiant Bwyd Môr sydd mewn sefyllfa fregus. Mae angen i'r Llywodraeth ddarparu'r wybodaeth hon.<br><br>Sut gallwn gynorthwyo a chyfleu'r negeseuon i BBaChau yng Nghymru a chynorthwyo SN (**Defra**) - o safbwynt tariffau mae DL yn hapus i ddefnyddio cronfa ddata o 900 o gwmnïau bwyd (Cyfeirlyfr Cynhyrchwyr) i rannu'r wybodaeth â busnesau a gofyn iddynt edrych ar y tariff a gwefan Defra gan gynnwys costau ychwanegol/newidiadau eraill ar gyfer mewnforion ac allforion.<br><br>NB – mater i'r Bwrdd yw gweithio gyda Defra a rhannu'r wybodaeth hon â BBaChau.<br><br>**Cam Gweithredu 7:** Sicrhau bod Defra ar gael ar 4 Rhagfyr 2019 er mwyn adrodd yn ôl i Gyfarfod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.<br><br>Mae Defra wedi creu cyfres o bodlediadau i helpu'r diwydiant i baratoi am Brexit. Mae'r gyfres ar gael yma https://soundcloud.com/user-746073953<br><br>Mae'r pynciau presennol yn cynnwys:<br><br>• Allforio<br>• Tariffau a'r sector bwyd-amaeth<br>• Cytundebau masnach a'r sector bwyd-amaeth<br>• Labelu bwyd<br>• Cemegau<br><br>Hefyd, gallwch ddod o hyd i'r gyfres trwy chwilio "Podlediadau Defra" ar SoundCloud.<br><br>Hefyd, er mwyn paratoi am Brexit, ewch i: www.gov.uk/Brexit |

| | |
|---|---|
| **7.** | **Y Cyngor Bwyd a Diod**<br>• **Y Diweddaraf am y Cyngor Bwyd a Diod** |

| | |
|---|---|
| | ~~**Andy Richardson**~~<br>**Gweler adran 6 a cham gweithredu 6 uchod.** |

| 8. | **Diweddariad ar Gynllun Gweithredu 2**<br>• **DLT – PAPUR**<br><br>**David Lloyd Thomas**<br><br>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru bapur ymgynghori ar y cyd ar y Cynllun Gweithredu 2 newydd ar<br>**Ein huchelgais i ddatblygu sector bwyd a diod Cymru ymhellach.**<br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos, a daeth i ben ddoe 15 Hydref 2019. Derbyniwyd 77 o ymatebion wedi'u cwblhau, roedd 4 arall ar y gweill ac roedd 91 wedi'u cwblhau'n rhannol ar y system.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn wedi denu llawer o weithgarwch, ac roedd DLT yn teimlo nad yw pobl yn tueddu i anfon ateb os ydynt yn hapus gyda'r ddogfen. Nid oedd Brexit yn ffactor yn y gyfradd ymateb. Cafwyd llawer o atebion gan amrywiaeth eang o fusnesau a chyrff cynrychioliadol – FDF, BRC – Undebau Amaeth, Arloesi Bwyd Cymru, Menter a Busnes. Cynhaliwyd 4 digwyddiad ymgysylltu gyda'r nos mewn rhannau gwahanol o Gymru mewn perthynas â Chynllun Gweithredu 2, a llwyddodd pob un i ddenu llawer o bobl. Dangosodd adborth o'r digwyddiadau fod rhai busnesau eisiau dogfen derfynol fwy penodol yn cynnwys camau gweithredu penodol fel yn AP1, ond roedd pawb yn teimlo bod Cynllun Gweithredu 2 yn mynd i'r cyfeiriad cywir.<br>Ni fynegwyd unrhyw bryderon mawr am faterion y gweithlu cymdeithasol / moesegol - dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn gweithredu fel hyn eisoes a'i bod yn cyd-fynd â'u harferion da.<br><br>Cam nesaf mewn perthynas â Chynllun Gweithredu 2 - Mae Brookdale Consulting wedi'i gontractio i ddadansoddi'r data a bydd yn dechrau ar y gwaith ddydd Llun 21 Hydref 2019. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Tachwedd 2019 yn barod ar gyfer cyfarfod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ym mis Rhagfyr. Mater i'r Bwrdd a'r Gweinidog wedyn fydd penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad hwn. Argymhellodd DLT yn gryf y dylid cyhoeddi'r adroddiad hwn wedyn.<br><br>**CAM GWEITHREDU 8:** Y Bwrdd i drafod dyfodol Cynllun Gweithredu 2 – y posibilrwydd o gyhoeddi datganiad cenhadaeth a gweledigaeth ar yr amcanion cyn y Nadolig ac adroddiad manwl wedyn yn y Flwyddyn Newydd. Byddai hyn yn dangos partneriaeth y diwydiant a'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd a sefydlu'r bwrdd newydd.<br><br>Yn yr adran ymgynghori, mae yna 5 prif darged a dangosydd perfformiad allweddol. Bydd DLT yn anfon rhagor o wybodaeth a gwelliannau yn ymwneud â'r adran hon at aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.<br><br>Ar hyn o bryd, mae dyddiad dod i ben Cynllun Gweithredu 2 wedi'i amserlennu ar gyfer 2026. A oes angen cytuno ar ddyddiad dod i ben neu a allai hyn barhau'n benagored nes bod gwir angen newid sylweddol? Mae Cynllun Gweithredu 2 yn gallu datgan ei weledigaeth a'i genhadaeth ar gyfer pob blwyddyn, gan adrodd ar gynnydd blynyddol a gosod targedau. Bydd cyfathrebu â busnesau'n hollbwysig gydol y broses hon, a bydd angen adolygu camau gweithredu a thargedau yn rheolaidd yn unol â newidiadau. |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **9.** | **Diweddariad SBV**<br>• **Jess Bearman (Papur)**<br>**David Morris**<br><br>Y sbardun ar gyfer SBV yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sydd, yn ei hanfod, yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn holl waith Llywodraeth Cymru. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddeddfwriaeth unigryw ar y pryd (2015) ar gyfer y Llywodraeth, ac mae'n ymwneud â dyheadau hirdymor i Gymru, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru fwy llewyrchus. Mae'r SBV ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yn ymwneud ag ystyried y nodau llesiant a chenedlaethau'r dyfodol a'u trosi'n gamau gweithredu ystyrlon ar gyfer y diwydiant bwyd a diod.<br><br>Mae'r 6 cholofn yn cynrychioli gwerthoedd brand cynaliadwy sy'n deillio o nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (1) gwarchod ein hamgylchedd a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau (2) cydnabod a gwobrwyo arferion gwaith moesegol (3) creu cynhyrchion iachus maethlon ac amgylcheddau iach (4) dathlu diwylliant, traddodiadau a tharddiad Cymru (5) diogelu lles anifeiliaid, bioamrywiaeth a rhywogaethau mewn perygl (6) sicrhau diogelwch a hylendid wrth gynhyrchu bwyd.<br><br>O'r dechrau, cytunwyd na fyddai cynllun ardystio yn cael ei gyflwyno o'r newydd; mae gan y diwydiant bwyd a diod nifer fawr o ardystiadau a gofynion a reoleiddir eisoes, a'r bwriad yw datblygu'r cynlluniau sydd eisoes yn bodoli.<br><br>Mae pob cynllun achredu wedi cael ei adolygu a'i gysoni â'r colofnau.<br><br>Mae llai o gynlluniau i "ddathlu diwylliant, traddodiadau a tharddiad Cymru". Mae rhai cynlluniau wedi'u hachredu ac wedi'u harchwilio'n llawn, ac mae eraill yn addewidion yn unig ac yn wan o'i gymharu â chynllun wedi'i archwilio. Bydd addewidion yn cael eu derbyn ar hyn o bryd nes bod cynllun ardystiedig yn cael ei gymeradwyo.<br><br>Mae llawer o waith ymchwil wedi'i gwblhau yn ymwneud â gwerthoedd brand cynaliadwy y tu mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth gan ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni - rydym yn ceisio sicrhau mantais i gynhyrchwyr bwyd a diod fel bod cynhyrchion yn gallu denu premiwm yn y farchnad waeth beth yw'r farchnad darged oherwydd bod ein cynnyrch yn cydymffurfio â safon SBV. Hefyd, dylai busnesau fod yn sicrhau manteision gwirioneddol o dan y colofnau cynaliadwyedd.<br>Mae angen gwneud ymchwil i benderfynu a fyddai marchnadoedd targed yn gweld gwerth yn SBV. Roedd gwerth Cymreictod a gwblhawyd dros 2 flynedd yn ôl yn ymwneud mwy â tharddiad bwyd; ar hyn o bryd mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud yn ymwneud â phrynwyr masnach gan weithio gyda phrynwyr masnach a fynychodd ddigwyddiad Blas Cymru a digwyddiadau eraill er mwyn canfod a yw hyn yn berthnasol iddyn nhw.<br>Bydd y cynllun yn un cynhwysol ac yn rhoi cyn lleied o bwysau â phosibl ar fusnesau. Mae profion senario wedi'u cwblhau gyda chymorth cydweithwyr Zero2Five er mwyn ystyried pa mor anodd y byddai i gynhyrchwyr sicrhau statws gwerth brand cynaliadwy.<br><br>Mae rhai o aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn mynychu bwrdd rhaglen SBV sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gadwyn fwyd a chyrff cynrychiadol eraill. |

| | |
|---|---|
| | Mae gwaith yn cael ei wneud gyda Smorgasbord ar hyn o bryd ar frandio SBV. Sut rydym yn gwerthu SBV i'r byd? Mae angen brand cryf i annog defnyddwyr i brynu cynhyrchion SBV.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd y Rhaglen SBV yn ddiweddar, a chytunwyd bod angen cefnogaeth gyffredinol i ddefnyddio cynlluniau presennol er mwyn ysgafnhau'r baich ar fusnesau. Bydd yr heriau'n deillio o darddiad a diffinio tarddiad - a ddylai SBV Cymru fynnu bod cynhwysion o Gymru'n cael eu defnyddio? Hefyd, mae heriau'n bodoli o safbwynt 'lle yn erbyn cynnyrch' a chynhyrchydd yn erbyn cynhyrchydd a marchnadoedd targed h.y. prynwr masnach yn erbyn defnyddiwr. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd mwy o fanylion yn cael eu datblygu ar sut i weithredu'r cynllun a'i lywodraethu.<br>Bydd angen llywodraethu ac arolygiadau/archwiliadau/gwiriadau ar gyfer uniondeb brand. Mae Gwerth Ychwanegol yn allweddol i SBV. Mae angen i ddefnyddwyr a busnesau ddeall ac eisiau'r premiwm y mae'r brand yn ei ddarparu. |
| **10.** | **Dyfodol y Bwrdd**<br>• **Adolygiad o Gylch Gorchwyl aelodaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn y dyfodol**<br>• **Diweddaru'r broses ailbenodi**<br>**Adolygiad David Lloyd o Gylch Gorchwyl aelodaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn y dyfodol**<br>Roedd y ddwy ddogfen wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod - y fersiwn newidiadau wedi'u tracio a'r fersiwn derfynol.<br>Cam Gweithredu 9: Bydd NB ac MW yn gweithio ar hyn ac yn adrodd yn ôl gyda diweddariadau a fersiwn terfynol o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Mae'r pwyntiau allweddol ar gyfer y Cylch Gorchwyl yn cynnwys cynrychioli'r Diwydiant a chynghori Gweinidogion. Bydd copïau'n cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd o fewn 2 wythnos i'r cyfarfod hwn. Bydd y tîm polisi yn gwirio ac yn darllen y Cylch Gorchwyl newydd.<br>Cam Gweithredu 10: MW i gyflwyno'r MA a hysbysu'r Gweinidog mai fersiwn drafft yw hwn a bod adolygiad o'r cylch gorchwyl yn cael ei gynnal a'i fod yn cael ei ddiwygio gan y bwrdd ar hyn o bryd. 18 Hydref 2019<br><br>**Aelodaeth y Bwrdd yn y dyfodol**<br>Ystyried yr hyn y mae'r bwrdd newydd yn ei gynrychioli e.e. sgiliau, cynhyrchu bwyd, pethau eraill.<br>Cynlluniwyd y Bwrdd presennol i ystyried y cynllun gweithredu gwreiddiol a gweithio tuag at fod yn annibynnol ar y Llywodraeth. I ba raddau y dylai'r Bwrdd gynghori a darparu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. A allai aelodau'r clwstwr weithio'n agosach gyda'r Bwrdd a'i gynghori?<br><br>Gallai strwythur y bwrdd gyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion allweddol Cynllun Gweithredu 2. |

| | |
|---|---|
| **11.** | **Diweddariad am Glystyrau**<br>• **Adroddiad Gwerthuso (Diweddariad ysgrifenedig)**<br>• **Diweddaru a datblygu clystyrau yn y dyfodol** |

| | |
|---|---|
| | **Andrew Thomas**<br>**Ifor F Williams**<br><br>Cafwyd diweddariad gan Ifor Ffowcs-Williams am glystyrau mewn rhannau eraill o'r byd – a chafwyd diweddariad gan Andrew Thomas am Glystyrau Cymru.<br><br>Mae tua 2,000 o glystyrau ledled Ewrop heddiw. Nid yw'r mater yn ymwneud â dyfeisio clystyrau, ond yn hytrach deall y rhanbarth a chymwyseddau penodol sydd wedi creu cyfoeth. Mae'r 2,000 o glystyrau hyn yn gyfrifol am 1 o bob 3 swydd a thros 50% o'r twf mewn cyflogau, ac mae'r swyddi gwerth uchel i'w gweld yn y clystyrau. Mae'r busnesau twf uwch i'w cael yn y clystyrau hefyd. Mae'r clystyrau masnachu yn denu cyfoeth i ranbarth gyda chyd-leoli lle mae busnesau tebyg yn clystyru'n naturiol i wasanaethu marchnad.<br>Mae llawer o glystyrau bwyd yn datblygu ffocws rhanbarthol, megis Food Valley, sef rhanbarth o'r Iseldiroedd sy'n cynnwys cwmnïau bwyd rhyngwladol, sefydliadau ymchwil, a Phrifysgol a Chanolfan Ymchwil Wageningen. Mae 15,000 o wyddonwyr yn gweithio o fewn 50 cilomedr i'r brifysgol hon er mwyn deall yr amherffeithrwydd yn ein system a chanfod ffordd o weithio fel tîm. Mae gan y clwstwr hwn, sy'n digwydd yn naturiol, fwrdd, sy'n cynnwys Is-Ganghellor y brifysgol a phrif weithredwyr cwmnïau cenedlaethol. Mae'n fwrdd sy'n cael ei gydnabod ledled y byd ond mae'n fusnes helics triphlyg gyda'r byd academaidd ac asiantaethau cyhoeddus perthnasol. Mae cyllid nodweddiadol ar draws Ewrop ar gyfer clystyrau yn amrywio o £0.5m i £2-3 miliwn y flwyddyn fesul clwstwr. Mae'r cyllid yn dod o asiantaethau cyhoeddus ac mae'n cael ei baru'n aml gan gyllid o'r UE, cyllid cenedlaethol a chyllid o weinyddiaethau'r ddinas drwy fathau gwahanol o gymorth cyhoeddus. Mae rhywfaint o gyllid yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y clwstwr. Mae clystyru newydd ddechrau yng Nghanada, ac mae ganddynt gyllideb o 300m o ddoleri Canada dros 5 mlynedd gan gynnwys 50% o arian cyfatebol gan fusnesau.<br><br>Mae Cymru, fel Seland Newydd, yn canolbwyntio ar y lefel ranbarthol. Mae Canada yn cyllido deoryddion arbenigol gan gynnwys ar gyfer gwerth ychwanegol ac ar gyfer proteinau, gan fanteisio ar wybodaeth arbenigol hefyd. Yn Ewrop mae'n rhaid i anghenion arbenigol gael eu gweithio drwy asiantaethau cyhoeddus – dull gweithredu gwahanol.<br><br>Nid yw'n hawdd llunio dangosyddion perfformiad o glystyrau. Mae dangosyddion yn feddalach, a gall clystyrau gasglu data fel llinellau sylfaen trosiant a'u cymharu yn y dyfodol. Fel arfer ni ellir dadgyfuno llwyddiant yn sgil clystyru o ffactorau achosol eraill. Wrth adolygu, dylid edrych ar dystiolaeth o newid megis cwmnïau'n newid o geisio gwneud popeth ar eu pennau eu hunain i gystadleuwyr yn dechrau gweithio gyda'i gilydd a phrynu cynhwysion amrwd a defnyddio logisteg gan greu diwylliant o gydweithredu ac ymddiriedaeth. Rydym yn datblygu'r ymddiriedaeth yng Nghymru.<br><br>Un o rolau allweddol rheolwr clwstwr yw casglu gwybodaeth a nodi prosiectau cydweithredol sy'n gweithredu o'r gwaelod i fyny. Mae adnodd BIG Cywain yn ddefnyddiol wrth ddatblygu cronfa ddata gwybodaeth o'r cwmnïau allweddol a'u mannau pwyso ac ati, a byddant yn gallu ymateb gyda phrosiectau sy'n cael eu harwain gan y galw megis hyfforddi, allforio, datblygu ac ati. |

| | |
|---|---|
| | Bydd busnesau clwstwr yn gwybod ‘pwy yw pwy’ a ‘phwy sy’n berchen ar eitemau penodol’. Hefyd, byddant yn gwybod am unrhyw faterion cyffredin ac unrhyw gyfleoedd cyffredin neu gyfleoedd na allwn eu datrys.<br>Rôl allweddol rheolwr clwstwr yw dod â’r unigolion allweddol at ei gilydd, yn ogystal â bod yn frocer ac yn gysylltydd. Mae angen i reolwr clwstwr wybod am y bobl allweddol sy’n cael eu derbyn gan bawb yn y busnesau hynny. Un o rolau allweddol rheolwr yw’r ffaith fod y gwaith yn wirfoddol a’i fod yn agored i unrhyw un, ond mae’n rhaid nodi’r cwmnïau sy’n mynd i wneud gwahaniaeth ac edrych ar y cwmnïau sy’n mynd i greu’r fasnach allforio a swyddi gwerth uchel.<br><br>Yng Nghymru, rydym wedi dechrau’r gwaith o ddatblygu clystyrau yn hwyr, ond rydym wedi dechrau’n gyflym ac yn symud yn gyflym. Nid ydym wedi sefydlu un clwstwr yn unig, ond rydym yn cynnwys pob maes, megis y clwstwr diodydd a’i rannu’n glwstwr gwin, dŵr ac ati drwy ffurfio grwpiau diddordeb arbennig. Dod â phobl at ei gilydd naill ai o gwmpas prosiect neu i ymdrin â phroblemau cyffredin.<br>Yng Nghymru mae’r 3 chanolfan arloesi bwyd yn ganolog i Helics Triphlyg, ac maent yn esiampl wych i weddill y byd.<br>Yn y dyfodol, mae angen sicrhau bod mwy o brosiectau’n cael eu sefydlu, gan gynnwys prosiectau anodd eu datrys o bosibl a fydd yn ymestyn i’r holl grwpiau clwstwr oherwydd bod problemau cyffredin yn bodoli.<br><br>AM – roedd angen gweithgarwch â ffocws ar gyfer clystyrau oherwydd cyllidebau cyfyngedig. Mae busnesau sydd eisoes yn cymryd rhan yn brysur iawn yn y clystyrau ac ym mhrosiect Helics. Gwthio’n galed ar grwpiau diddordeb arbenigol e.e. grŵp Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd wedi’i Reoli NutriWales.<br>Yn fyd-eang, mae Cymru’n dechrau rhyngweithio â chlystyrau eraill yn y byd ac rydyn ni’n dysgu o hynny. Mae busnesau sy’n ymgysylltu â chlystyrau angen llawer o gymorth, ac maent yn rhoi o’u hamser ac yn gadarnhaol. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal gwerthusiad o glystyrau i ystyried y sefyllfa strategol nesaf. Mae yna geisiadau o hyd am fwy o glystyrau a chlystyrau newydd. Gwnaed ymgais i ymgysylltu â’r sector prifysgolion. Er bod yna rwystrau sylweddol i gydweithio â phrifysgolion, a’i bod wedi cymryd blynyddoedd o ymgysylltu, rydym yn llwyddo’n araf. Mae’r Gweinidog wedi ymrwymo i’r broses glystyru, ac erbyn hyn rydym yn sicrhau ymgysylltiad gwell ledled Llywodraeth Cymru yn ehangach.<br>Rhaid i’r cynllun gweithredu newydd a rôl y bwrdd yn y dyfodol gyfrannu at y ffordd rydym yn datblygu’r clystyrau ymhellach. Mae gwaith rhagorol eisoes wedi’i wneud, ond mae gennym lawer mwy i’w wneud.<br><br>NB – nid yw’r Bwrdd yn ddigon agos at glystyrau i allu eu cynghori. Bydd arian yn broblem o hyd, gan geisio sicrhau digon o arian cyfatebol. A ddylai aelodau’r Bwrdd fod yn arweinwyr neu’n gadeiryddion clystyrau? A ydym yn eu gosod ar lefel ddigon uchel i’r diwydiant?<br>A yw clystyrau’n gweithredu ar draws sectorau drwy gyflwyno deunydd pacio ac ati a gweithio ar faterion cynaliadwyedd?<br>Beth ydym yn ei wneud i ddatblygu prosiectau ar draws clystyrau? Mae angen inni edrych tua’r dyfodol gan ganolbwyntio ar arian cyfatebol, dibynnu llai ar arian cyhoeddus ac ymgysylltu ag arweinwyr cryf yn y clystyrau.<br><br>AM - mewn perthynas ag arian cyfatebol, rydym yn gweithredu ar sail "rhywbeth am rywbeth". Mae angen buddsoddiad gan fusnesau arnom, sy’n anodd ar gyfer busnesau bach |

| | |
|---|---|
| | a microfusnesau. Maent yn rhoi o'u hamser ond rydym yn gofyn am gyfraniad gan fusnesau mwy. Yng Nghymru, mae'r ffaith fod gennym feddylfryd diwylliant grantiau o hyd yn rhwystr. Yn y dyfodol, gallai aelod o'r bwrdd gael ei neilltuo i glwstwr er mwyn ysgogi prosiectau a herio syniadau. Gallai'r clystyrau neilltuo rhywun i'r bwrdd (IFW)<br><br>DL – mae nifer o fusnesau sy'n cymryd rhan yn cynnig gwybodaeth well a deialog gyda chwmnïau mwy ar sail strwythuredig mewn cyfarfodydd chwarterol, ac yn derbyn adborth ac adroddiadau gan benaethiaid clwstwr. Bwydo gwybodaeth ar sail dull o'r gwaelod i fyny.<br><br>AM – mae busnesau'n awyddus i ryngweithio â'r bwrdd. Mae angen arweinyddiaeth mewn cyfnod ansicr, a byddai ymgysylltu'n agosach â'r bwrdd o fudd i'r clystyrau. Mae angen prosiectau sy'n cael eu harwain gan fusnesau, heriau a ffocws ar feysydd. Mae Rhaglen Parod am Fuddsoddiad yn enghraifft dda, a bydd y Gynhadledd Twf Cynaliadwy ym mis Tachwedd yn galluogi rhyngweithio agosach gyda'r bwrdd.<br><br>NB – dangosodd digwyddiad y clwstwr y noson gynt fod llawer o egni yn yr ystafell, ond nid oedd unrhyw strwythur i'r sgyrsiau hynny ac ni allai aelodau'r bwrdd adrodd unrhyw beth yn ôl i'r bwrdd. Roedd angen sicrhau diben ar gyfer y digwyddiad ac adrodd gwybodaeth yn ôl y gall y Bwrdd weithredu arni.<br><br>DL – byddai'n anodd cael gafael ar y wybodaeth hon. Sut mae dangos allbynnau pendant o glystyrau; enghraifft dda fyddai clwstwr Prif Swyddog Gweithredol lle mae ailfeddwl y broses ymgysylltu wedi creu cysylltiadau cryf â'r prif gwmnïau bwyd. Gallem sefydlu cyfeirlyfr cysylltiadau rhyngwladol i helpu i ddatblygu marchnadoedd.<br><br>CAM GWEITHREDU 11: Bydd yr adroddiad gwerthuso clystyrau yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf (AM)<br><br>IFW – mae angen hysbysu'r bwrdd am faterion ac anghenion hyfforddiant er mwyn pennu blaenoriaethau. Dylai'r bwrdd fod yn system glirio lefel uchel ar gyfer mentrau clwstwr a defnyddio cysylltiadau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i helpu clystyrau.<br><br>JW – mae llif gwybodaeth o glystyrau i'r Bwrdd yn ymddangos yn annigonol ar hyn o bryd os nad ydych yn ymgysylltu â nhw. E.e. nid yw'r clwstwr bwyd môr yn ymgysylltu oni bai ei fod am i aelod o'r Bwrdd fynychu digwyddiad. Mae digon o glystyrau eraill yng Nghymru nad ydynt wedi'u sefydlu gan y Llywodraeth, ac maent y tu allan i'n fframwaith. Mae angen inni wybod mwy am y rhwydweithiau clwstwr eraill hyn.<br><br>IFW – rhaid edrych yn rheolaidd ar y bylchau a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda.<br><br>AM – mae gan Lywodraeth Cymru bolisi drws agored, a bydd yn siarad â phawb. Mae ymchwilwyr eisiau siarad â ni drwy'r amser, ond ar gyfer prosiectau ymchwil.<br><br>IFW – yn draddodiadol, mae gwaith ymchwil prifysgolion yn seiliedig ar chwilfrydedd. Maent yn ganolfannau gwybodaeth ac mae angen sicrhau bod prifysgolion yn cyfrannu mwy at waith ymchwil sy'n seiliedig ar anghenion yn hytrach na chwilfrydedd. |

| | |
|---|---|
| | Mae angen rheolaeth clwstwr hirdymor ar gyfer anghenion datblygu economaidd hirdymor. Trwy newid rheolwr clwstwr / partner cyflenwi, mae 6-9 mis o wybodaeth yn cael ei cholli tra bod y rheolwr newydd yn datblygu ei gysylltiadau personol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid hirdymor ar gael ar gyfer pob un o'r clystyrau, sy'n sefyllfa fregus.<br><br>Mae cyfraniad y diwydiant yn brawf hanfodol, ac ni ddylai clystyrau dderbyn arian cyhoeddus yn barhaol. Dylai busnesau fynd ati i ddarparu arian ar y cyd. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw strwythurau cyfreithiol ar gyfer cyd-ariannu, ac mae angen sefydliad **meso** i ddod â chyllid cyhoeddus a busnesau at ei gilydd.<br><br>JF – A yw'n well gadael i'r clystyrau arwain yr agenda hyfforddiant neu gefnogi'r materion cyffredinol? Mae anghenion yn wahanol ar gyfer pob sector a chlwstwr.<br><br>IFW – mae hyfforddiant yn wahanol ar gyfer pob sector, ac mae pob clwstwr yn wahanol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gan y clwstwr allforio angen hyfforddiant mwy gronynnog. Mae strategaeth y clwstwr diodydd yn eiddo i'r clwstwr hwnnw ac nid i ni. Ein swyddogaeth yw ceisio canfod elfennau cyffredin a nodi lle y gallwn gynorthwyo fel bwrdd. Ni all y bwrdd reoli ar lefel ficro - mae angen rhywfaint o anhrefn a darnau anniben sy'n ennyn syniadau da ac arloesedd.<br><br>NB – cysylltiad pwysig â'r bwrdd hwn. Mae'r bwrdd yn alluogwr ac yn hwylusydd, ac mae'n rhaid i reolwyr clystyrau fod yn rheolwyr hirdymor. Mae'r unigolyn yn adlewyrchu'r angen i hwyluso. Mae hirdymor yn adlewyrchu anghenion sgiliau a llywodraethu, ac ni fydd diwydiant yn ariannu yn y dyfodol os na welant fanteision clir. Felly, pan fyddwn yn chwilio am gyllid mae angen i ni gael eglurder ynglŷn â'r hyn y mae'r cyllid yn mynd i'w ddarparu.<br><br>DL – mae yna enghreifftiau da yng Nghanada. Hefyd, mae cwmnïau amlwladol yn yr Iseldiroedd wedi lleoli eu hunain o amgylch y brifysgol. Byddant yn darparu cyllid gan eu bod yn agos at y gwyddonwyr o fewn y brifysgol ac y bydd o fantais fasnachol iddynt. Mae her benodol i gynnyrch Cymru a phroffil cwmnïau bwyd.<br><br>IFW – mae allforion Cymru yn brin - mae ystadegau'n dangos bod angen gwybodaeth a gweithredu fel sbardunau twf er mwyn llwyddo ar lefel fyd-eang.<br><br>AM – mae twf allforion yn her, a byddwn yn edrych tuag at y bwrdd a'r Cynllun Gweithredu 2 newydd, ond mae yna ddiffyg uchelgais ymysg llawer o fusnesau hefyd. Mae gennym lawer o brosiectau da fel Prosiect Helics, ac rydym yn canolbwyntio ein hamser ar arloesi. Gallem dargedu marchnadoedd allforion arbenigol ac nid marchnadoedd torfol.<br><br>DL – mae Prosiect Helix wedi datblygu rhai cannoedd o gynhyrchion. Mae'n rhaid gadael i gwmnïau ddod o hyd i'w marchnad eu hunain, ni allwch ganfod marchnad ar eu rhan. Erbyn hyn, mae rhai busnesau bach yn cydnabod bod angen iddynt fynychu sioeau, a bydd hyn yn helpu i greu mwy o hyder o safbwynt allforio a meithrin agwedd gadarnhaol at allforio.<br><br>DM – mae angen gwneud rhywbeth cwbl wahanol gan ei bod yn anodd cael cwmnïau i fynychu digwyddiadau tramor. Rydym yn astudio ffigurau o |

| | |
|---|---|
| | ddigwyddiadau rydym yn eu mynychu er mwyn penderfynu a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar werthiant allforion.<br>Sicrhau bod 70 o gwmnïau o dramor yn adleoli i Gymru fel y gallant gyflenwi marchnad y DU yn hytrach na'r farchnad allforion. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar Blas Cymru. Mae llawer iawn o fusnes yn cael ei wneud yn y digwyddiad hwn, ac mae'n bosibl bod hyn yn fwy manteisiol i ddatblygu'r fasnach allforion na mynd â chwmnïau o Gymru dramor.<br><br>NB – rydym yn mynychu digwyddiadau er mwyn hybu gwerthiant a dangos i'n busnesau eu bod yn gallu tyfu a bod yn arweinwyr yn y farchnad.<br><br>IFW - un o broblemau clir y farchnad yw'r ffaith nad yw busnesau yn awyddus i fynychu teithiau masnach dramor. Nid ein marchnad yw'r broblem, ond yn hytrach ein gallu, ein datblygiad a'n sgiliau yma yng Nghymru.<br><br>DL – Bydd yn ddiddorol gweld effaith Brexit ar bresenoldeb cynhyrchwyr a phrynwyr mewn sioeau. Nid oes sicrwydd beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.<br><br>AM - byddwn yn edrych ar strwythur ar gyfer y digwyddiad clwstwr nesaf cyn cyfarfod y Bwrdd. Gellid datblygu thema o dan arweiniad y bwrdd, holi busnesau am broblemau megis allforio, a gofyn am adborth uniongyrchol gan fusnesau. Gellid datblygu'r ddadl yn y clystyrau wedyn.<br><br>NB – mae'n ddefnyddiol gweld y duedd dros y 15 mlynedd diwethaf ac a yw masnach wedi tyfu neu ddirywio.<br><br>DM - mae angen gwerthuso digwyddiadau masnach allforio a marchnadoedd targed. Mae gennym eitem ar yr agenda yn ymwneud â masnach, a bydd Mark Hughes yn trafod gwybodaeth a chyfleoedd allweddol yn ogystal â'r heriau sy'n wynebu ein Hallforion Masnach.<br><br>AT - Cynhelir cyfarfodydd clwstwr unigol yn rheolaidd, ac yn y dyfodol bydd gwahoddiad estynedig yn cael ei anfon at bob aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Hefyd, byddwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr 8 clwstwr ar ddechrau cyfarfodydd y bwrdd yn y dyfodol. **CAM GWEITHREDU 13:** Bydd pob cyflwyniad ar gael ar system SharePoint fel bod modd i aelodau'r Bwrdd eu gweld (AT/AM)<br><br>AM – Mae cyfarfod clwstwr 201 yn gyfle arall i'r Bwrdd godi materion i'w trafod. Mae yna system gyfathrebu gyflym gyda chlystyrau a gellir sicrhau ei bod ar gael i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.<br><br>**CAM GWEITHREDU 14:** Cyflwyniad o 15 Hydref 2019 i'w lwytho i SharePoint. (MW) |

| | |
|---|---|
| **12** | **Rhaglen Parod am Fuddsoddiad**<br>**•Gwybodaeth Ddiweddaraf am Gynadleddau Buddsoddwyr**<br>**Andrew Martin**<br>**Linda Grant BIC**<br><br>Dechreuwyd y rhaglen hon gan y bwrdd ac mae'n dangos y berthynas waith dda rhwng Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a Llywodraeth Cymru mewn perthynas |

| | |
|---|---|
| | â darparu'r hyn sydd ei angen ar fusnesau. Mae'r rhaglen wedi'i gwella a'i datblygu'n barhaus ers y gweithgarwch peilot nes ei bod yn adnodd prif ffrwd. Erbyn hyn mae wedi'i defnyddio ar draws y rhaglen Busnes Bwyd gyfan er mwyn ystyried gwiriadau rheoli ac ariannol mewn perthynas â diwydrwydd dyladwy. Mae'r prosiect yn cynorthwyo busnesau llwyddiannus a busnesau sy'n pryderu am faterion Brexit yn benodol ar hyn o bryd. Gyda chefnogaeth y Bwrdd mae wedi bod yn ganolog i gefnogi busnesau yng Nghymru.<br><br>Mynychodd BIC gyfarfod diwethaf y Bwrdd, gan rannu'r newyddion diweddaraf am raglen Parod am Fuddsoddiad ac yn nodi y bydd cynhadledd yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2019 yn dilyn y gynhadledd Buddsoddwr Ariannol gychwynnol yn 2015. Teitl cynhadledd 2019 yw "Paratoi ar gyfer Twf Cynaliadwy", ac fe'i cynhelir ddydd Mawrth 26 Tachwedd 2019 yng Ngwesty Dewi Sant, Caerdydd. Bydd agenda'r diwrnod yn cynnwys nifer o gyflwyniadau a phaneli yn ymwneud â thwf yn ystod sesiwn y bore. Bydd Arloesi Cymru yn trafod ei brofiadau a bydd Scale-Up yn bresennol. Bydd sesiynau grŵp y prynhawn yn cynnwys (1) *Cywain* – Sgiliau Bwyd Cymru – "sicrhau bod y pethau sylfaenol yn gywir" a sut i ddatblygu o fod yn fusnes micro i fod yn fusnes bach. (2) *Cynllunio ar gyfer Olyniaeth* - ystyried ble mae pobl hŷn eisiau gadael, felly beth yw'r dewisiadau yn ymwneud â chynllunio ar gyfer olyniaeth. (3) *Canolfan Cydweithredol Cymru* - Gweithwyr Cyflogedig yn Prynu Busnesau. (4) *Buddsoddi Moesegol* - busnesau sy'n cael llawer o effaith gymdeithasol.<br>Bydd sesiwn Rhwydweithio Cyflym rhwng Buddsoddwyr a Busnesau Bwyd a Diod yn dilyn.<br>Targedu presenoldeb o 120 – 140 o bobl gan gynnwys Buddsoddwyr a phobl Busnes Bwyd.<br>Gellir archebu'r sesiynau hyn ymlaen llaw trwy'r platfform Event to Bright a fydd yn mynd yn fyw o fewn y pythefnos nesaf. |

| | |
|---|---|
| **13** | **Rhaglen Datblygu Masnach**<br>• **Diweddariad a Chynlluniau'r Dyfodol**<br>**Enfys Jones**<br>**Bethan Sian Jones (Menter a Busnes)**<br>**Neil Burchell (Menter a Busnes)**<br><br>Amcan y rhaglen Ymgysylltu â Masnach oedd datblygu a chynnal y berthynas â'r dylanwadwyr allweddol – y bobl allweddol a'r bobl bwysig allweddol mewn sefydliadau manwerthu a gwasanaethau bwyd. Cyfleu agenda ehangach Llywodraeth Cymru i'r sefydliadau hyn yn ogystal â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Sicrhau bod y cyflenwyr yn cael eu hyfforddi a'u trefnu'n briodol cyn ymgysylltu â'r manwerthwyr a thyfu eu busnesau.<br>Cynnwys rhwydweithiau cymorth eraill - Cywain, Arloesi Bwyd Cymru, gweithio gyda'r clystyrau ac ati er mwyn datblygu'r rhaglen a gweithredu yn yr un modd wrth gyfarfod â'r prif fanwerthwyr a chwmnïau gwasanaethau bwyd.<br><br>Mae'r Partneriaid Cyflenwi, Menter a Busnes, wedi'i sefydlu ers 30 mlynedd ac mae'n sefydliad dielw. Mae angen dwyn ynghyd arbenigwyr sy'n ategu ei gilydd, data, gwybodaeth am y categori, marchnata, manwerthu a'r tîm Menter a Busnes sy'n gwybod llawer am gynhyrchwyr bwyd ac ymdrin â phrynwyr ac ymgysylltu. |

| | |
|---|---|
| | Mae pwyntiau cyswllt ar gyfer prynwyr mawr yn cynnwys sicrhau bod ansawdd cyson o safbwynt cynnyrch Cymreig i'w weld mewn digwyddiadau, sioeau masnach, stondin bwyd a diod Cymru a chinio gyda manwerthwyr allweddol, ac ati. Hefyd, rheoli'r lolfa fasnach yn RWAS, sy'n cydweddu'n dda â'r rhaglen ymgysylltu â masnach. Mynychodd dros 100 o bobl bwysig eleni, a chafwyd cinio gyda'r nos gyda'r Gweinidog a Chanolfan Cydweithredol Cymru.<br>Nodi bod digwyddiadau fel Blas ar Gymru bellach wedi'u sefydlu yn nyddiaduron prynwyr allweddol. Maent yn ymwybodol ohonynt ac yn edrych ymlaen at fynychu.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o fanwerthwyr yn trin Cymru fel rhanbarth ac nid fel gwlad. Rydym yn rhanbarth arall o Loegr o safbwynt prynu a marchnata. Mae'r Alban yn cael ei thrin yn unigol ac mae gan y wlad galendr o ddigwyddiadau. Yn wahanol i Gymru, mae swyddfeydd prynu wedi'u lleoli yn yr Alban.<br>Mae Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn gobeithio newid y canfyddiad hwn o Gymru a sicrhau bod pobl yn ei hystyried yn wlad gan ganolbwyntio ar raglenni a gweithgarwch pwrpasol a phenodedig i bobl<br>Cymru. Y ffordd orau o wneud hyn yw creu cysylltiadau ar lefel uwch. Rhaid sicrhau bod hyn yn digwydd ar lefel rheolwr masnachu/tarddiad a hyd at lefel Cyfarwyddwr lle bo hynny'n bosibl. Y pen saeth rydym wedi'i ddefnyddio i ymgysylltu â manwerthwyr yw Data Kantar. Nid yw'r wybodaeth yn rhanbarthol - mae'n ymwneud â'r DU gyfan. Mae Menter a Busnes yn prynu data Kantar yn ymwneud â Chymru ac yn rhoi gwybodaeth newydd am Gymru i fanwerthwyr. Gallant bwyso a mesur eu perfformiad fesul categori ac ystyried eu perfformiad yn erbyn eu cystadleuwyr. Gellir troshaenu archwiliadau siopau a defnyddio gwaith monitro perfformiad. Rydym yn troshaenu gwerth cyflwyno Cymreictod. Mae defnyddwyr Cymru eisiau prynu cynnyrch o Gymru. Rydym wedi gallu cysylltu hyn ar lefel uwch â manwerthwyr fel:- Tesco - Morrisons – Co-op – Lidl – Aldi – Ocado – Asda ac Iceland.<br><br>Drwy'r rhaglen hon rydym yn ceisio creu gwaddol drwy wella safonau drwy gynnal digwyddiadau ac ati - Academi Sgiliau Masnachol (mae 33 o gwmnïau wedi mynychu'r rhaglen) – Digwyddiad Tuck In (wedi'i ddatblygu gan y Clwstwr a'i gynnal ar y cyd gan y Bwrdd) – Sgiliau Marchnata – Grŵp.<br>Prynu drwy'r Contract Data – Paratoi ar gyfer Cyfarfodydd (digwyddiadau gyda Morrisons er mwyn paratoi cwmnïau) – Cynadleddau ac ati megis digwyddiadau IDG, creodd Aldi siop yn y gynhadledd. Mae'n werth mynychu digwyddiadau IDG.<br><br>Crynodeb byr o Ddydd Gŵyl Dewi 2019 –<br>Cynhaliodd TESCO ddigwyddiad awyr agored ym Mhrif Swyddfa Tesco yn Welwyn Garden City. Trelar HCC - 20,000 o gynhyrchion gan 16 o gyflenwyr wedi'u pecynnu, 1,500 o fagiau nwyddau wedi'u rhoi i staff ac ati. Darparwyd cynhyrchion gan Puffin Produce, Llaeth y Llan, Edwards o Gonwy, Fine Foods y Fenni, Gower View, Peters Food, Bragdy Brains, Princes Hate, Brecon Carreg, Tregroes Waffles, Popty Bakery, Distyllfa Penderyn, Bara Henllan a mwy. Roedd pobl yn coginio ac roedd hyn yn galluogi staff i weld a samplu bwyd o Gymru. Dywedodd prynwyr mai dyma'r digwyddiad gorau i'w gynnal gan Tesco erioed. Roedd map yn dangos i bawb o ble roedd y cyflenwyr yn dod.<br>Hefyd, roedd e-bost mewnol wedi gwahodd staff i fynychu a darparu gwybodaeth am y digwyddiad. |

| | |
|---|---|
| | Roedd cwmni Morrison's eisiau cynnal gweithgaredd yn y siop a defnyddio cydweithwyr o'r brif swyddfa. Cafodd cynhyrchwyr bwyd, côr ac ati eu cydlynu fel rhan o'r TDP, a chodwyd baneri yn y siop. Roedd 5 cyflenwr wedi cynnal arddangosfeydd a sesiwn blasu bwyd, ac roedd cyfle i gyfarfod â ffermwyr. Roedd telynores a chôr yn bresennol hefyd.<br><br>Prif Swyddfa Waitrose – Telynores gyda 3 brand yn gwneud gwaith hyrwyddo gyda map, a llun o'r awyr o'r swyddfa cyn dechrau – roedd y 5 cyflenwr yn cynnwys Penderyn, Rachels Organic a Village Bakery. Roedd prif gogydd yn coginio hefyd.<br><br>Co-op, Angel Square, Manceinion – samplu cynnyrch o Gymru gan gynnwys Penderyn, Llaeth y Llan ac ati. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd â phrynwyr yn y digwyddiad hwn.<br><br>Cynlluniau ar gyfer y dyfodol<br>Dangosodd data Kantar nad yw Tesco yn gwerthu llawer o gwrw o Gymru. Cwblhawyd prosiect yn y siop, prynwyd data Kantar ychwanegol a chyflwynwyd rhai argymhellion. Rhestrwyd Lager Wrecsam ar unwaith yn amodol ar ddod o hyd i gwmni canio i gyflenwi'r ddiod i Tesco. Hefyd, trafodwyd y cownteri bwyd môr yn Tesco a gweithgarwch posibl yn y maes hwn. Mae Tesco yn llai awyddus i gynnal y cownteri eu hunain, ac mae wedi troi at y Clwstwr Bwyd Môr i weld a fyddai diddordeb ganddo gynnal y cownteri pysgod ffres yn y siopau.<br>Mae'r bobl sy'n ymwneud â bwyd môr wedi bod draw i Ogledd Iwerddon lle mae'n cael ei arloesi er mwyn penderfynu a oes modd ei gyflwyno yma.<br><br>Yn ddiweddar, mae NB ac EJ wedi ymweld â nifer o siopau yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Yr elfen fwyaf trawiadol oedd llwyddiant Tesco o safbwynt gwerthu bwyd lleol, a'r ffaith fod y cwmni yn clodfori ei gyflenwyr, ei gynhyrchwyr a'i brosesyddion lleol. Mae gan y cwmni ystod eang o gynhyrchion nad ydynt i gyd yn gynhyrchion crefftwyr, ac mae ganddo amrywiaeth eang o gynhyrchion wedi'u masgynhyrchu. Mae'r cynhyrchion cig yn cynnwys pasteiod o Iwerddon, selsig, bacwn, creision, byrbrydau, cynhyrchwyr diod ffrwythau ac ati. Brandiau marchnad dorfol yw'r cyfan, ond nid oes digon o ddatblygiad o'r fath yma yng Nghymru.<br>Ceir amrediadau mawr o safbwynt y farchnad dorfol – Gogledd Iwerddon, cig, caws ac ati. Brandiau marchnad dorfol yw'r brandiau. Mae gennym frandiau da ar y brig a chynhyrchion crefftwyr, ond dim digon o frandiau wedi'u masgynhyrchu.<br><br>Mae Tesco wedi dweud bod Cymru wedi creu argraff ar y cwmni a'i fod yn awyddus i weithio gyda ni i raddau mwy er mwyn gweld a oes modd cynnwys mwy o gynnyrch o Gymru yn ei siopau yng Nghymru gan gyflwyno hynny yn ei Ŵyl Flasu. Cynhelir yr Ŵyl Flasu bob mis Medi ym Melfast ac mae 55 o frandiau o Iwerddon yn arddangos ac yn gwerthu cynnyrch dros 3 diwrnod o dan faner Tesco. Mae'r cwmni eisiau gwneud hyn yng Nghymru yn 2021.<br><br>Morrison's – Digwyddiadau Cynhyrchwyr Bwyd Lleol 2019<br>Cynhelir y digwyddiadau hyn mewn siopau ac mae 400 – 500 o brif siopwyr yn mynychu. Mae 16 o gyflenwyr newydd yn mynychu ynghyd â phrynwyr o'r brif swyddfa. Cynhelir cyfarfodydd rhwng y prynwyr hyn a chyflenwyr newydd. Mae gan y siopwyr restr wirio ac mae modd iddynt roi adborth i'r prynwr ar eu barn am y brand. Yn yr un modd, fe aethom ati i isod pabell fawr y tu allan i'r siop yng Nghaernarfon a oedd yn gymorth i'r siop. Mae rhai rhestrau llwyddiannus eisoes wedi deillio o'r gweithgaredd hwn – |

| | |
|---|---|
| | Braces own Jam Welsh cakes, Real Soup Company, Mary's Farmhouse, Brookes. Y gwerth hyd yn hyn yw £1.2 miliwn ac ar hyn o bryd mae ymweliadau technegol yn cael eu cynnal gan Morrison's â'r cynhyrchwyr.<br><br>Syniad Mawr Morrison's<br>Mae Morrison's wedi dewis Cymru i dreialu'r prosiect hwn. Mae'n rhestru o leiaf 200 o gynhyrchwyr newydd yn ei siopau. Dywedodd y Syniad Mawr y byddai'n wych pe bai pob un o'r 400 o aelodau'r clwstwr yn bresennol yn y siop gyda'u cynnyrch. Trafodwyd yr holl heriau o ran sut y gellid cyflawni hyn, dosbarthu, logisteg ac ati. Mae angen cymorth ar gynhyrchwyr ar gyfer eu dulliau dosbarthu hefyd, gan ystyried sut a phryd i gael y cynnyrch i'r siop.<br>Heriau wrth gysoni ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i'r mathau hyn o fanwerthwyr. Mae potensial arwyddocaol i gyflenwyr o Gymru yn y prosiect hwn gyda Morrison's. Mae'n bwysig nodi bod Morrison's wedi dewis Cymru i ddechrau'r prosiect hwn. Mae'n her i ni sicrhau bod brandiau prif ffrwd yn cyrraedd y siopau ac ati.<br>A ydym wedi mapio'r bylchau y mae ein cyflenwyr yn eu hwynebu o ran gallu cyflenwi Morrison's os oes problem gyda'r cyflenwad? Mae'r cwmni wedi penderfynu peidio â delio â nifer o gwmnïau. Dewis brandiau lleol yn hytrach na brandiau cenedlaethol fel yn Iwerddon.<br><br>Mae trafodaethau'n parhau â'r Co-op, ac mae nifer y cyflenwyr wedi cynyddu o 20 i 120 mewn llai na 4 blynedd. Cynhaliodd y Gweinidog ginio mawreddog ar gyfer uwch gynrychiolwyr o'r Co-op yn y Lolfa Fusnes yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Aethpwyd â hwy o amgylch y sioe gyda'r nos hefyd i edrych ar y da byw ac ati. Gwelwyd Caws Cenarth yn y sioe.<br>Menter Grocery Girls - gofynnwyd a hoffai Cymru gymryd rhan yn y fenter hon.<br>Gwobrau'r Co-op yng Nghaerdydd - y manwerthwr cyntaf i gynnal digwyddiad gwobrwyo - roedd Puffin yn fuddugol mewn un categori.<br><br>Siop Lidl Gogledd a Gweriniaeth Iwerddon - mae NB ac EJ wedi ymweld â rhai siopau ac maent yn cynnwys llawer o fwyd o Iwerddon. Mae cyfarwyddwr rhanbarthol Cymru, sy'n hanu o Iwerddon, yn awyddus i efelychu dull Iwerddon o gyflenwi siopau yng Nghymru, a gwneud mwy i gynnwys brand Cymru. Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2020, bydd y cwmni yn prynu cynnyrch arbennig o Gymru ar gyfer yr eil ganol, ac os yw'r arbrawf yn llwyddiannus, mae'n bosibl y bydd cynnyrch yn cael ei restru yn y dyfodol.<br><br>Mae'r un peth yn wir am gwmni Aldi. Yn yr Alban maent wedi cyrraedd lefel uwch. Mae'r gwaith yn parhau yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Ddydd Gŵyl Dewi.<br><br>Mae Ocado yn symud ymlaen, gan gynnig mwy o linellau a chynhyrchion. Trefnu cyfarfodydd â'r prynwr.<br><br>Gwasanaeth Bwyd - gwella'r ystod o fwydydd o Gymru (mae tîm rhanbarthol Brexit i ffwrdd am ychydig fisoedd tan fis Ionawr 2020).<br><br>Baxter Storey – mae gwaith yn parhau, mae contractau mawr wedi'u sicrhau ar gyfer busnesau yn y De-ddwyrain.<br><br>Cyfarfodydd CH & Co ar y gweill yn y dyfodol |

| | |
|---|---|
| | Creed & Co – cwmni bwyd ar sail planhigion wedi'i gadarnhau a bydd ei gynnyrch yn cael ei ddosbarthu'n genedlaethol.<br><br>Mae ystod eang o weithgareddau'n cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.<br>Dydd Gŵyl Dewi 2020 - mae nifer o weithgareddau siopau'n yn cael eu cynllunio.<br>Mae nifer o gontractau wedi cael eu dyfarnu eleni – Masnach - Defnyddwyr ac fe'u cynhelir ym Marchnad Bwrdeistref Manchester Piccadilly – gweithio gyda'r adrannau Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu sy'n marchnata'r digwyddiadau hyn.<br>Anfonir gwybodaeth am ddyddiadau a lleoliadau at aelodau'r Bwrdd pan fydd ar gael.<br><br>Er mwyn datblygu llwyddiant y rhaglen rydym yn ystyried allbynnau o tua £5m o safbwynt elfennau gwahanol o'r rhaglen, ac mae llawer mwy o waith ar y gweill hefyd. Mae un cinio mawreddog eisoes wedi'i gynnal gyda'r Gweinidog. Bydd un arall yn cael ei gynnal cyn y Nadolig ac un arall ar ôl hynny.<br>Parhau i weithio ar Syniad Mawr Morrison's.<br>Mae Tesco yn ehangu ei ystod o gynnyrch lleol, ar ôl wynebu problemau technegol.<br>Cynhelir 'Co-op chilled' yn y gwanwyn.<br>Mae cynllun cyfarfod â'r prynwr Ocado yn parhau.<br>Ehangu cynnyrch lleol Aldi.<br>Mae cwmni Lidl yn gwneud gwaith dilynol ar ôl dydd Gŵyl Dewi.<br>Mae gan M&S rywfaint o waith i'w wneud gan gynnwys gwaith dilynol ar ôl dydd Gŵyl Dewi. Bydd prynwr Waitrose newydd yn gweithio yng Nghymru a Lloegr.<br>Mae rhaglen brandiau'r dyfodol Sainsbury yn ymwneud â dod o hyd i entrepreneuriaid ifanc a chyffrous newydd.<br>Gweithio gyda Cywain Micro i fynd â grŵp i gyfarfod â Sainsburys fel man cychwyn.<br><br>**CAM GWEITHREDU 15:** Gall aelodau'r bwrdd ofyn cwestiynau trwy e-bostio Alison. |

| | |
|---|---|
| **14** | **Rhaglenni Datblygu Masnach Allforio ac FDI**<br>• **Diweddariad a Chynlluniau'r Dyfodol**<br>**Mark Hughes**<br>Dros gyfnod yr haf, mae Mark Hughes wedi bod yn edrych ar y rhagolygon ar gyfer ein cwmnïau i sicrhau twf allforio, a'r hyn y gallwn ei gyflawni ar ben ein ffigurau allforio yn 2018. Nid ydym erioed wedi edrych yn fanwl ar y cwmnïau rydym yn trafod â nhw, nac ystyried eu trosiant a'u capasiti. Mae angen sefydlu targed realistig yn ogystal â cheisio addysgu cydweithwyr o Lywodraeth Cymru dramor am y brandiau sy'n weithgar yn eu hardal a'r brandiau sydd eisiau bod yn weithgar yn eu hardal, gan ein galluogi i weld pa frandiau sy'n mynd i ychwanegu'r gwerth mwyaf.<br><br>Darn arall o waith sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yw'r rhaglen digwyddiadau tramor; amcangyfrifir y rhaglen hon bob 2 flynedd ac rydym yn dod i ddiwedd y rhaglen bresennol ar hyn o bryd? Mae'n anodd penderfynu pa farchnadoedd y dylem ganolbwyntio arnynt oherwydd ansicrwydd Brexit, ac a ddylem dargedu mwy neu lai o farchnadoedd Ewropeaidd neu geisio cael mynediad i diriogaethau eraill. Hefyd, mae'r tîm masnach yn ystyried ble rydym yn llofnodi cytundebau masnach, pa rwystrau sy'n bodoli o fewn y marchnadoedd hynny a beth yw'r potensial o fewn ein sylfaen gyflenwi. |

| | |
|---|---|
| | Rhaglen Datblygu Masnach – Cynhaliwyd y rhaglen yn Japan ym mis Mehefin 2019. Fe deithiodd 5 cwmni i Tokyo, gan dderbyn allbynnau da o'r daith hon. Mae angen mwy o gwmnïau a brandiau mwy, a'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig.<br><br>Iwerddon ym mis Medi 2019 – mae 10 o gynhyrchwyr wedi'u harchebu. Cafodd yr ymweliad masnach ei ganslo, a bydd yn cael ei aildrefnu ar ôl Brexit.<br><br>Ymweliad Datblygu Masnach â Qatar yn y dyfodol - mae 10 cynhyrchydd yn awyddus i fynychu.<br><br>Presenoldeb yn Anuga gyda 10 cynhyrchydd. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â Brexit.<br><br>Paratoi ar gyfer Gulfood 2020 gydag allbynnau da o fynychu yn y gorffennol.<br><br>Ymgysylltu â Phrynwr Rhyngwladol – Tendr gyda Menter a Busnes i weithio gyda 60 o brynwyr rhyngwladol tan ddiwedd mis Mawrth 2020. Cynhelir rhaglen beilot i weld a oes modd datblygu cysylltiadau agosach.<br>Problemau gyda marchnad yr Emiradau Arabaidd Unedig, gan gynnwys rhwystrau i fasnach megis nodau ansawdd a chadw'r safonau hyn yn ogystal â threth siwgr ac ati. Cynghori cynhyrchwyr i siarad â'u marchnatwyr i allforio mwy o gynhyrchion i'r Emiradau Arabaidd Unedig.<br><br>Cytundeb CETA - gweithio gyda 'Rheolwr Rhyngwladol i'w logi', cynorthwyo gyda chymhlethdod Brexit heb gytundeb neu gynorthwyo i sicrhau bod cynhyrchwyr/cynhyrchion yn cyrraedd marchnad newydd. £35,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i logi Rheolwr Rhyngwladol, sy'n gymorth sylweddol ar gyfer cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru. Mark Hughes i edrych ar botensial consortiwm o fusnesau i allu cyfrannu at logi Rheolwr Rhyngwladol.<br><br>**CAM GWEITHREDU 16: Adolygu ac ailgyhoeddi Ffynhonnell Data (Ffynhonnell Data ONS Gogledd Iwerddon) - Cara James/David Morris** |
| **15** | **Unrhyw Fater Arall**<br>• **Enwau Bwyd wedi'u Diogelu (Papur ALW)**<br>**David Lloyd**<br><br>Dosbarthwyd papurau cyn y cyfarfod gan Alison Lea Wilson<br><br>• **Cynllun Dydd Gŵyl Dewi 2020**<br>**Lyndsey Margeston**<br>Trafodwyd hyn yn gynharach. |

| 16. | **Dyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd 2019** |
| --- | --- |
| | Rhagfyr 2019 – dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau<br><br>Dyddiadau Dyddiadur 2020<br>Ebrill 2020 – lleoliad i'w gadarnhau<br>Gorffennaf 2020 – lleoliad i'w gadarnhau<br>Hydref 2020 – lleoliad i'w gadarnhau<br>Rhagfyr 2020 – lleoliad i'w gadarnhau |
| | KM ac SN (Levercliff) - Gwybodaeth am Brexit gan y Bwrdd. Bydd Levecliff yn drafftio rhai geiriau yn yr un modd â gwybodaeth Defra.<br><br>Bwriedir ailgychwyn gweithrediadau ar safle'r GRH ym Mharc Busnes Eryri yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y busnes yn cael ei ymgorffori'n llawn yng nghadwyn gyflenwi Futura.<br><br>Mae Ifor Fawkes Williams yma i roi cymorth o bob math i ni.<br><br>MW – mae angen anfon neges e-bost ynglŷn â chofrestr cyswllt amcan a chaniatáu i ni gydweithio ar ddogfennau.<br>Cam Gweithredu: Bydd Mark yn anfon neges arall at holl aelodau'r Bwrdd.<br><br>Cadarnhawyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn rhanbarth y Canolbarth neu'r Gogledd ar 4 Rhagfyr 2019. |